



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: MA/L/LG/4293/21

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

### **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Heddiw rwyf wedi gwneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Daw'r Rheoliadau i rym ar 30 Rhagfyr.

Amgaeaf gopi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, y bwriadaf ei osod ar ôl i'r offeryn statudol gael ei gofrestru.

Yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo gan 6 Chwefror 2022 er mwyn iddo barhau mewn grym.

O dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 1 Chwefror 2022.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd